CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL

**17.07.25**
**6:30 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*

## *Cyfarfod Hybrid - ZOOM*

## *Hwb LlanNi*

## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| 1 | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>**Presennol:** RJ (Cadeirydd) EY; AR; DP;JOJ;TAJ; JAJ; EO; IW;DAW;GW<br>**Ymddiheuriadau:** LLMH;RY<br>**Mynychu:** SWR<br>Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod gan nodi yr ymddiheuriadau uchod.<br>Cafwyd nodyn o ymddiheuriad gan Cyng K Hughes yn dilyn y cyfarfod. |
| 2 | **Datgan Diddordeb**<br>Daganodd JAJ ddiddordeb yn y drafodaeth am CCTV |
| 3 | **Cofnodion 05.06.25**<br>Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 05.06.25 fel rhai cywir **(DW/DP)**<br>Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 23.06.25 **(JOJ/EO)**<br><br>**Materion yn Codi**<br><br>**Rhandiroedd** – nododd y Clerc bod gofynion y broses trosglwyddo arian Banc Barclays yn golygu bydd rhaid i Mr E. Hughes fynd i Landudno i gwblhau'r broses. Cynhelir Is-Bwyllgor Safleoedd ym mis Medi i drafod camau nesaf. |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | | |
|---|---|---|
| | | **Materion Priffyrdd -** trafodwyd y diweddariad i'r Cynllun Gweithredu. Cytunwyd i addasu ac ychwanegu<br>• Cais i addasu llinell felyn wrth Hwb LlanNi – gosod llinellau dwbl melyn rownd y tro at 1 Stryd Fawr.<br>• Llinellau gwyn dwbl ar y ffordd o Llan tuag at Y Ficerdy – arafu traffig cyn cyrraed y troeon drwg?<br>• Union leoliad y groesfan zebra wrth ymyl Twrcelyn/Siop Newydd<br>• Cyflwr ail-wynebu ffordd yng Ngharmel<br>• Parcio Stryd y Bont/Maes Ceidio - cadarnhau cytundeb gydag Adrannau Cynllunio/Priffyrdd o ran stad newydd Ty'n Ffynnon<br>• Polyn ffôn ger Bryn Hyfryd wedi torri - fyddai Adran Priffyrdd yn gyfrifol i adrodd am hwn?<br><br>**Adolygu Camerâu Diogelwch** -cyflwynodd y Clerc ddogfen yn amlinellu'r dyfynbrisiau ddaeth i law. Cyflwynwyd hwy yn anhysbys er mwyn sicrhau tryloywder. Cafwyd trafodaeth ar gamerâu DVR a NVR ac fe gytunwyd i ddyfarnu'r cytundeb i'r manylder gorau am arian. Cynigiodd TAJ i gefnogi Pris Cais 2 i sicrhau gwell camera ac fe eiliwyd gan IW - cytunwyd yn unfrydol.<br>Clerc i e-bostio'r cwmnïau rhag blaen.<br><br>**Cloc y Pentref** -cyflenwad trydan i'r Lych Gate. Adroddodd y Clerc bod cyfarfodydd yn mynd rhagddynt i drefnu cyflenwad mor fuan â phosib.<br><br>**Hyfforddiant Cynllunio** - cytunwyd i rannu'r rhaglen hyfforddiant er mwyn sicrhau presenoldeb hyd at Fawrth 2026<br><br>**Diffibrilyddion -** Clerc wedi cysylltu â swyddog perthnasol Tomos Hughes sydd wedi cefnogi CC Llanfechell. Cyfarfod i'w drefnu rhyngddo a'r Clerc mor fuan â phosib.<br><br>**Sul y Cofio -** enw i law a JAJ/EY i drefnu ymhellach.<br><br>**Mater gosod cynwysyddion mewn gardd yng Ngharmel -** Clerc i holi am ddiweddariad gan Cyng. KH<br><br>**Meddygfa Glan Mena**i - Clerc i holi am ddiweddariad ynglŷn ag oriau agor.<br>**Chwarae Glan Menai** - cytunwyd i fwrw 'mlaen gyda thrwsio'r siglen cyn gynted â phosib ar gyfer cyfnod gwyliau ysgol - GW i weithredu ag Ysgol Haearn i dalu'r gost.<br><br>Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu fersiwn - 17.07.25 |



Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cygnor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| 4 | **Materion Trwy'r Gadair**<br><br>**Caru Llan** - cais am gefnogaeth ariannol i ddarparu bwyd ar gyfer digwyddiad i agor safle chwarae newydd Trac Beicio. Cynigiodd EO £100 tuag at archebu Cwn Poeth ac fe eiliwyd gan AR - cytunwyd yn unfrydol. Clerc i weithredu .<br><br>Cytunwyd i anfon neges at Beca Bown yn ei llongyfarch ar ei llwyddiant diweddar yng Ngemau'r Ynysoedd ac yn dymuno yn dda iddi yn y Brifysgol yn America. |
| 5 | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Taliadau ers 05.06.25**<br>• Cyflog Clerc – Mehefin = £676.09 yn cynnwys 3 x ZOOM<br>• Nwy Prydain Trydan Clwb Bowlio £18.69<br>• Nwy Prydain trydan Uned 1 £12.76<br>• Nwy Prydain trydan Goeden Dolig £13.23<br>• CSYM les Cae Astro £117.30<br><br>**Biliau cyfredol**<br>**Noddi arwydd ochr cae yn CPD Llan –** cynigiodd DAW, eilwyd gan JOJ ac fe gytnwyd yn unfrydol - £50 yn ôl yr arfer.<br><br>**Cyfrif Cyfredol**: £9600.10<br>**Cyfrif Cadw:** £36,812.68<br><br>**Cyfrifon Blynyddol 2024-25 -** cyfrifon yn nwylo Archwilio Cymru o fewn y terfyn amser, disgwyl dyfarniad. |
| 6 | **Materion Cynllunio** - dim i law |
| 7. | **Adroddiad Cynghorwyr Sir –** ymddiheuriad gan KH, dryswch gyda lleoliad. |
| 8 | **Materion Safleoedd**<br><br>**Unedau Tan y Foel –** dim diweddariad gan CSYM ar y broses o werthu y llain a'r ddau gompowd. Asiant yn dal i holi.<br><br>**Safle'r Stesion** – amcanbris i law i baentio'r polion a 'jet wash' i'r slabiau blaen - £2000 – cytunwyd i'r Clerc holi Gareth Parry am baentio a chwilio am bris amgen i'r jet wash. .<br><br>**Lawnt Fowlio –**. Trafodwyd torri'r coed. Amcanbris i law £2500 a disgwyl pris arall trwy EO<br><br>**Clwb Peldroed –** nodwyd bod pwyllgor CPD yn ceisio am grant i adnewyddu'r gegin |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | **Mynwentydd** – dim i law<br><br>**Cae Gofeb –** ardal wedi ei chlirio bellach a Caru Llan yn cydweithio gyda'r Clerc i geisio grantiau pellach.<br><br>**Rhandiroedd –** Trafodwyd eisoes. |
| **9.** | **Gohebiaeth**<br><br>Nodwyd cynnwys yr ohebiaeth a gylchredwyd trwy ebost ers cyfarfod mis Mehefin. |
| *Daeth y cyfarfod i ben am 8:30pm* | |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com